# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18/09/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 18/09/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 25/09/2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet: R Medwyn Hughes,
Aelod Cabinet Economi a Chymuned

**PWNC - Derbyn cynnig o grant a gweithredu cynllun i gefnogi datblygu'r economi lleol.**

**PENDERFYNIAD**

Derbyn grant o £597,764 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, i barhau rhaglen o weithgareddau i gefnogi datblygu'r economi lleol ynghyd â ymchwilio i ddatblygiad canolfan yn Nhrawsfynydd fydd yn creu gwaith mewn meysydd newydd er mwyn leihau effaith dadgonisiynnu'r Pwerdy ar ein trigolion a'n cymunedau.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | R Medwyn Hughes,<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Nia Bowden,<br>Rheolwr Cefnogi Busnes,<br>Gwasanaeth Datblygu'r Economi, Adran Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18.9.2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc:**

**Derbyn cynnig o grant a gweithredu cynllun i gefnogi datblygu'r economi lleol.**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Derbyn grant o £597,764 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, i barhau rhaglen o weithgareddau i gefnogi datblygu'r economi lleol ynghyd â ymchwilio i ddatblygiad canolfan yn Nhrawsfynydd fydd yn creu gwaith mewn meysydd newydd er mwyn leihau effaith dadgonisiynnu'r Pwerdy ar ein trigolion a'n cymunedau.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Awdurdodi derbyn y cynnig o arian ac gwireddu'r gweithgaredd sydd am gael ei ariannu

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Yr Awdurdod Dadgomisiynnu Niwclear sy'n gyfrifol am safle cyn bwerdy Trawsfynydd ar ran Llywodraeth y DG.

Yn ogystal â adfer safle'r atomfa mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i leihau ardrawiad economaidd cau a dadgomisiynnu eu pwerdai. Mae'r Awdurdod yn cynnig grantiau i sefydliadau wireddu cynlluniau i'r perwyl ac mae Cyngor Gwynedd

wedi manteisio ar y grantiau hyn dros nifer o flynyddoedd i gyllido prosiectau i ddatblygu'r economi lleol mewn ymateb i effaith cau pwerdy Trawsfynydd.

Yn mis Mehefin dyma'r Adran Economi a Chymuned yn cyflwyno cais pellach am grant o £597,764 gan yr Awdurdod Dadgomisiynu ar gyfer gweithredu a cydlynu pecyn gwaith hyd at Hydref 2028 gan gynnwys:

a) Help ychwanegol i bobl ifanc sydd gyda anhawsterau ddod o hyd i waith
b) Cymorth i drigolion lleol sydd yn gweithio ond dal mewn tlodi wella eu sgiliau a cynyddu eu enillion
c) Ymgysylltu gyda busiensau lleol a darparu cyngor arbenigol i fentrau lleol hirsefydlog er mwyn eu helpu i adolygu eu busnes a'i wneud yn fwy gwydn i'r dyfodol
ch) Paratoi cynlluniau a datblygu'r achos ar gyfer sefydlu Canolfan Wyddoniaeth newydd ar diroedd cyn bwerdyTrawsfynydd er mwyn creu a sicrhau gwaith o safon i drigolion lleol yn parhau i fod ar gael.

Mae a) i c) yn barhad / esblygiad o weithgareddau gan y Cyngor sydd wedi bod yn cael eu hariannu gan yr Awdurdod Dadgomisiynnu yn flaenorol.

Mae ch) yn weithgaredd newydd i ddatblygu prorosiect sy'n flaenoriaeth gan y Cyngor er mwyn sicrhau cyflenwad o swyddi da i'r aral yma o Feirionnydd i;r dyfodol. Mae datblygu cynlluniau ac achos busnes yn angenrheidiol i ganiatáu targedu ffynhonellau ariannu megis Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddatblygu'r Ganolfan.

Mae'r gweithgareddau ariennir gan yr Awdurdud wedi eu bwndelu o fewn pecyn ehaganch o £1.83M o gefnogaeth i fusnesau a mentrau lleol sydd ar waith gan y Cyngor gan ddefnyddio arian wedi ei neilltuo i'r perwyl a pres gan Llywodraeth y DG drwy law'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

<u>Dyma cadarnhad o lwyddiant y cais a cytundeb ariannu yn dod i law ar y gyntaf o Fedi</u>.

Nid oes unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor o weithredu'r cynllun, mae adnodd i wireddu a cydlynnu'r gweithgareddau wedi ei gynnwys o fewn y costau'r cais

Bydd y cynllun yn gweithredu o dan adain gweithdrefniadau rheolaeth ariannol a rheoli prosiect y Cyngor i finimeiddio risg.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

DIM

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid

“Mae’r grant yma i’w groesawu i ariannu’r prosiectau sydd wedi eu nodi.  Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro

“Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir”.

Aelod/au Lleol

“Mae hi yn hanfodol ein bod yn derbyn grant yr NDA i alluogi ni wneud ein gorau dros holl fobl yr ardal,  yn enwedig cael safle wyddoniaeth”